

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod y Cyngor llawn gynhaliwyd ar Nos Iau yr 13^{eg} o Ebrill 2017

yn Swyddfa, Parc Menai am 7pm.

Presennol:

Y Cyng. D Jones-Morris, L James, B Jones, J Pierce, R Jones, C Elis-Williams a J Wyn Williams

E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng H Griffiths, R G. Roberts, T Anwyl-Williams, a D W Jones,

Dim cyswllt gan y Cyng A Thomas.

Gweddi - Offrymwyd Gweddi gan y Cadeirydd

Cod Ymddygiad,

Dim i'w nodi

Cofnodion Mis Mawrth

Derbynwyd fel cofnodion cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddwyd fod Cyngorydd wedi anfon sylwadau ar Cais Cynllunio C17/0205/25/LL : Codi Adeilad Amaethyddol newydd: Hafodol Uchaf Lon Fodolydd ar e-bost i'r Clerc ond nad oedd y cofnodion yn cyfeirio at hynny

Clerc i gysylltu a'r Adran Cynllunio

Adroddiad Cyllid

- BDO

Clerc wedi bod mewn cyswllt a BDO i geisio datrys y broblem parthed y gwahaniaeth yn y pris asedau

Y Cwmni yn holi am restr asedau 2015-16

- Llythyr i'r Archwilydd mewnol wedi ei anfon ynghyd a tal am 2014 – 15 a 2015 – 16
- Cyfrifydd – Cytunwyd i'r Clerc ddefyddio Cwmni Cyfrifwyr Hughes Jones Dyson sydd eisioes yn trefnu Cyflogau ar ran y Cyngor
- Ceisiadau Nawdd A 137 – Un cais oedd wedi dod i law, gan Grwp Merched Glasinfryn sydd newydd gael ei sefydlu.

Cytunwyd i gefnogi argymhelliad yr Is bwyllgor Cyllid i gyfrannu £500 tuag at eu gweithgareddau

Datgelwyd diddordeb gan y Cyng J Pierce a ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad.

Ceisiadau Cynllunio - Dim ceisiadau yn ardal Pentir

Ymateb holiadur Hwylusydd Tai Gwledig

Darllenwyd e-bost oedd wedi ei dderbyn yn amlinnellu mae ychydig iawn o ymateb oedd wedi eu derbyn yn ol i'r holiadur ag oherwydd hynny ni fyddai yr Hwylusydd yn bresennol heno fel cytunwyd arno yn Mis Ionawr.

Gan mae Cyfarfod Blynyddol fyddai ymlaen Mis Mai cytunwyd i'w gwahodd yn ol atom yn Mis Mehefin

Materion y Clerc

Gohebiaeth Cyng B Jones yn datgan ei ddiddordeb i roi ei enw ymlaen i fynychu seminar wedi ei drefnu gan Dwr Cymru yng Nghaerdydd a rhoi ei enw ymlaen i wahoddiad o Cyng Gwynedd i gael cynrychiolydd o'r Cyng Cymuned eu Pwyllgor Safonau

Cytunwyd i'w ddau gais ac i dalu ei gostau i fynd i Gaerdydd ar yr 2ail o Fai

Adroddiad

- Hysbysfyddau

– Cytunwyd ar leoliadau ag i'r Clerc anfon ffurflen deisyfu Cyngor Cyn-ymgeisio i Gwynedd

- Fynwent - gwaith ar y wal bileri wedi ei orffen ag anfoneb am y gwaith wedi ei dderbyn – **cytunwyd i dalu D W Lewis am y gwaith**
- Torri gwair ychwanegol - **Y Clerc i drafod cychwyn y cytundeb hefo Cyngor Gwynedd**
- Etholiad Mis Mai – daeth yn wybyddus fod Ward Faenol yn llawn ond mae ond dau ymgeisydd oedd wedi dod ymlaen i ward Glasinfryn/Pentir.

Oherwydd hynny byddai angen hysbysu yr angen i gyfethol

Materion y Cyngorwyr

- Tudur A Williams yn holi am y gysgodfan ag yn bryderus fod y symiau rhodd yn afresymol o uchel o'i gymharu a Cyngorau Cymuned eraill
Clerc mewn cyswllt a Cwmni'r gysgodfan tra byddai angen trafod Adran 137 yn y Cyfarfod Blynyddol
- Dafydd J Morris yn holi os oedd diweddariad ar Canolfan Penrhos
Cyng R Jones yn cyfarfod a D E Jones Swydddog adfywio Bro Cyng Gwynedd o fewn y dyddiau nesaf ag wedyn cyfarfod arall hefo'r defnyddwyr ymhen mis neu ddau

Gyda diwedd 'tymor 5 mlynedd' cyngorwyr yn golygu mae hwn oedd cyfarfod olaf cyn yr etholiad ag yn wir gyfarfod olaf dau oedd yn bresennol manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r ddau.

Cyng Catrin Ellis Williams am ei hymroddiad dros nifer o flynyddoedd i'r Cyngor Cymuned yma ag i'r **Cyng John W Williams** am ei wasanaeth diflino yntau fel Cyngorydd Sir dros Rhanbarth Pentir.

Yn yr un modd diolchodd y Cyng John W Williams i Gyngor Cymuned Pentir am y gefnogaeth oedd wedi ei dderbyn ganddynt

Cyfarfod nesaf: Nos Iau 11^{eg} o Fai 2017 am 7.00 yn y Swyddfa